



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Iechyd a Gofal Digidol Cymru Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth 2023-2026

CEFNDIR A PHWRPAS

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig sydd ag ystod o swyddogaethau sy'n gysylltiedig â darparu, dylunio, rheoli, datblygu a chyflwyno llwyfannau, systemau a gwasanaethau iechyd a gofal digidol. Mae ganddo rôl ganolog yn y gwaith o gasglu, dadansoddi, defnyddio a lledaenu data a gwybodaeth iechyd a gofal¹ yng Nghymru.

Llywodraethu Gwybodaeth

Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn cydnabod gwybodaeth fel ased strategol y mae'n rhaid cymhwyso lefel uchel o gydgyssylltu a throsolwg iddo. Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn cwmpasu'r polisïau, safonau, prosesau, metrigau a rolau sy'n arwain y defnydd cyfreithlon, effeithlon ac effeithiol o wybodaeth; mae'n creu fframwaith penderfynu ac atebolrwydd sy'n diffinio ymddygiad derbyniol wrth greu, defnyddio, rhannu, storio, archifo a dileu gwybodaeth.

Y Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion, sef Swyddog Diogelu Data Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n arwain Tîm Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae'r tîm yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwybodeg Glinigol ac yn adrodd

i'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, sef Gwarcheidwad Caldicott ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a Phrif Swyddog Gwybodaeth Glinigol Cymru.

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith / llinellau cyfrifoldeb sydd wedi'u nodi yn Atodiad A, ynghyd â chrynodeb o'r ffactorau sy'n cyflwyno heriau neu gyfleoedd i weithredu'r strategaeth (gweler yr adran heriau a chyfleoedd am fanylion pellach).

Pwrrpas y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r dull strategol y bydd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn ei ddefnyddio wrth ddefnyddio ei adnoddau a blaenoriaethu gweithgareddau. Mae strategaeth yn fwy na dogfen; mae'n ymwneud â phenderfynu sut y bydd nodau ac amcanion yn cael eu cyflawni. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r sail ar gyfer y penderfyniadau hynny drwy nodi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n nodau strategol. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth i ni wneud y penderfyniadau a fydd yn ein symud tuag at wireddu ein gweledigaeth a chyflawni ein cenhadaeth a'n nodau. Nid yw'r ddogfen hon felly'n 'strategaeth' ond yn fecanwaith i fframio ein hymagwedd strategol.

⁽¹⁾ At ddibenion y ddogfen hon, defnyddir y termau data a gwybodaeth yn gyfnewidiol.

DATBLYGU STRATEGAETH

Cydweithio ac ymgynghori

Wrth ddatblygu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n nodau strategol fe wnaethom ganolbwyntio ar gydweithio rhwng timau, cymryd sylwadau ar ddrafftiau cynnar a chynnal gweithdai rhithwir i drafod syniadau a mireinio ein ffordd o feddwl. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystod sesiwn ar ddiwrnod cwrdd i ffwrdd y Gyfarwyddiaeth Glinigol a thrwy'r prosesau ymgynghori mewnol. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allanol allweddol drwy arolwg o aelodau o Grŵp Cynghori ar Reoli Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru.

Cyd-fynd â Chynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynnwys portffolio Diogelu Data Cleifion, sy'n rhan o genhadaeth 1; 'darparu platfform ar gyfer galluogi trawsnewid digidol'. Mae ein strategaeth yn cyd-fynd â'r genhadaeth a'r portffolio sefydliadol hyn ond yn ymhelaethu arnynt i sicrhau bod yr ystod o gynhyrchion a gwasanaethau a ddarperir gan Dîm Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael eu hystyried. Mae ein hymagwedd strategol yn cymryd golwg gyfannol a thymor hwy o waith y Tîm Llywodraethu



Gwybodaeth a'r ffactorau a fydd yn ein helpu i weithredu'n fwy effeithiol fel tîm ac unigolion. Bydd hefyd yn ein helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer iteriadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol.

Mwy na strategaeth

Yn y pen draw, rydym yn ceisio datblygu Tîm Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dîm llwyddiannus sy'n perfformio'n dda. Ein strategaeth yw conglfaen y nod hwnnw drwy nodi'r hyn rydym eisiau i gynhyrchion a gwasanaethau ein tîm gyflawni a sut maent yn ychwanegu gwerth at Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac at y system iechyd a gofal yng Nghymru. Bydd nodi blaenoriaethau yn ein galluogi i ystyried ffactorau eraill sy'n bwysig i dimau llwyddiannus. Mae model 7S McKinsey (gweler ffigur 1) yn ffordd o weld y ffactorau eraill hynny a sefydlu pwysigrwydd eu gwneud yn gydnaws.


Am y model

Offeryn rheoli newid yw'r model ar gyfer dadansoddi cynllun, aliniad a pherfformiad sefydliadol.

Mae'r saith cydran wedi'u grwpio'n elfennau 'caled' a 'meddal', ac mae'r ddwy ohonynt yr un mor bwysig i ysgogi newid llwyddiannus.

Mae'r model yn mynd i'r afael â rôl hollbwysig cydgysylltu, yn hytrach na strwythur, o ran effeithiolrwydd sefydliadol/tîm.

Ffigur 1. McKinsey 7S Model



EIN GWELEDIGAETH A'N CENHADAETH

Mae canolbwynt allanol i lawer o waith Tîm Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru; rydym yn cyflawni'r hyn y cyfeirir ato'n 'Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol i Gymru' yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae ein tîm hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydymffurfio â chyfraith ac arferion da 'Hawliau Gwybodaeth'. Mae hyn yn cynnwys Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, Deddf Diogelu Data 2018, y ddyletswydd cyfraith gyffredin ar gyfrinachedd, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a chanllawiau a chodau ymarfer cysylltiedig. Mae ein gweledigaeth a'n cenhadaeth yn adlewyrchu'r rolau deul hyn.

Gweledigaeth – (yr hyn rydym am i'n cynhyrchion a'n gwasanaethau ei gyflawni)

'Arwain cydymffurfedd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru.'

Cenhadaeth – (pam mae ein tîm yn bodoli)

'Rydym yn arwain y gwaith o ddatblygu a chryfhau fframwaith cydymffurfedd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer y system iechyd a gofal yng Nghymru. Mae hyn yn gosod y sylfeini ar gyfer trawsnewid digidol drwy roi hyder i Iechyd a Gofal Digidol Cymru, rhanddeiliaid a phobl Cymru fod data'n cael ei ddefnyddio mewn modd cyfreithlon a diogel.'

NODAU STRATEGOL

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, rydym yn canolbwyntio ar bedwar nod strategol:

NOD Un

Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn parhau i fodloni ei rwymedigaethau statudol o dan ddeddfwriaeth hawliau gwybodaeth a sicrhau bod ein swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn cymhwyso'r datblygiadau polisi diweddaraf ac arferion da.

NOD Tri

Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu polisi sy'n meithrin ymddiriedaeth cleifion a'r cyhoedd trwy ganiatáu iddynt arfer eu hawliau gwybodaeth.


NOD Dau

Darparu'r cyngor, arweiniad, gwasanaethau a chynhyrchion Llywodraethu Gwybodaeth y mae sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru eu hangen er mwyn sicrhau bod data iechyd a gofal yn cael ei brosesu mewn modd cyfreithlon a phriodol.

NOD Pedwar

Ymgorffori meysydd a galluogwyr y ddyletswydd ansawdd o fewn swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Ffigur 2. Tŷ'r strategaeth



Tabl 1. Nodau allweddol a’u harwyddocâd

Cynnyrch / Gwasanaeth	Statws Cyfredol	Ble rydym ni am fod?	Sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno?	Pam fod ots?
Cydymffurfedd Corfforaethol Llywodraethu Gwybodaeth	Rydym yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol ac wedi gwneud cynnydd ar gynlluniau gwella. Mae ein gallu i gynnal a gwella ein harlwy cydymffurfio corfforaethol yn heriol oherwydd y galw cynyddol am ein mewnbwn proffesiynol i weithgarwch sicrwydd sy’n gysylltiedig â phortffolios, rhaglenni a phrosiectau cenedlaethol.	Rydym am i dîm cadarn o arbenigwyr Llywodraethu Gwybodaeth barhau i wneud gwelliannau cynyddrannol i drefnau cydymffurfedd Llywodraethu Gwybodaeth iechyd a Gofal Digidol Cymru. Byddant yn gwneud hyn gan ddefnyddio allbynnau o’r pecyn cymorth Llywodraethu Gwybodaeth a ffynonellau fel archwilio mewnol ac unrhyw ddysgu o risgiau, materion a digwyddiadau i nodi ein blaenoriaethau.	Trwy ddefnyddio allbynnau o weithgareddau fel Cynllunio Parhad Busnes, a dadansoddi anghenion sgiliau a hyfforddiant, byddwn yn nodi gweithgaredd allweddol ac yn mynd i’r afael â’r risgiau sy’n gysylltiedig â gweithio’n ynysig a phwyntiau unigol o fethiant sydd wedi datblygu dros amser. Byddwn yn ystyried capasiti yn y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth ehangach ac yn datblygu sgiliau a phrofiad, lle bo angen, i sicrhau bod swyddogaeth cydymffurfio gorfforaethol Llywodraethu Gwybodaeth yn gynaliadwy ac yn gadarn.	Er gwaethaf y posibilrwydd o niwed i enw da a chmau gorfodi ffurfiol gan reoleiddwyr, os na all Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddangos cydymffurfedd â deddfwriaeth Hawliau Gwybodaeth, ni all fwrw ymlaen â’i uchelgeisiau o fod yn bartner strategol y gellir ymddiried ynddo (cenhadaeth 5 Cynllun Tymor Canolig Integredig).
Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIAS)	Datrysiaid monitro rhagweithiol sy’n tynnu sylw at gamddefnydd posibl o gofnodion iechyd. Wedi’i integreiddio â systemau iechyd cenedlaethol, fel System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) a Phorth Clinigol Cymru (WCP). Angen ail-gaffael y contract. Treialu gwasanaeth monitro er mwyn i staff meddygon teulu gael mynediad i Borth Clinigol Cymru.	Cydnabod manteision y cynnyrch a’r gwasanaeth trwy gyllid craidd, a fydd yn caniatáu cynllunio hirdymor ar gyfer datblygu a defnyddio cynnyrch.	Trwy barhau i ddangos gwerth i randdeiliaid gan ddarparu parhad gwasanaeth yn ystod y broses ail-gaffael a gan ehangu’r gwasanaeth i fonitro mynediad i Borth Clinigol Cymru ar gyfer set amrywiol o ddefnyddwyr mewn meysydd gofal iechyd eraill ar draws Gofal Sylfaenol. Cyflwyno’r achos dros gyllid craidd i gefnogi’r model cynnyrch a gwasanaeth.	Mae Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol yn allweddol i ymddiriedaeth ryng-sefydliadol, cleifion a’r cyhoedd o ran defnyddiau data iechyd. Mae hefyd yn elfen allweddol o gydymffurfedd â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU. Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb cyfreithiol i roi mesurau sefydliadol a thechnegol priodol ar waith i ddiogelu data personol. Heb Declyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol, nid oes unrhyw ffordd i sefydliadau archwilio’n rhagweithiol unrhyw amheuaeth o gamddefnyddio data a gedwir ar systemau iechyd cenedlaethol yng Nghymru. O ystyried yr achosion parhaus o doriadau diogelwch data proffil uchel ar draws pob sector, mae dull hirdymor a chynaliadwy o ddefnyddio Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol a gwasanaethau cymorth cysylltiedig yn hanfodol i waith trawsnewid digidol y system iechyd a gofal yng Nghymru.

Cynnyrch / Gwasanaeth	Statws Cyfredol	Ble rydym ni am fod?	Sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno?	Pam fod ots?
Safon Brydeinig 10008 – Pwysau tystiolaethol a derbynioldeb cyfreithiol gwybodaeth sy’n cael ei storio’n electronig.	Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru achrediad Safon Brydeinig 10008 ar gyfer storfeydd data iechyd; Gwasanaeth Cofnodion Gofal Cymru (WCRS) a Gwasanaeth Canlyniadau ac Adroddiadau Cymru (WRRS).	Cynnal ein statws achredu presennol. Ystyried ehangu cwmpas yr achrediad i storfeydd sydd yr un mor bwysig, e.e. y Peiriant Data Clinigol – dull o storio data clinigol strwythuredig.	(i) Rhaglen dreigl o archwiliadau mewnol/allanol sy’n bodloni gofynion y Sefydliad Safonau Prydeinig. (ii) Ymarfer dichonoldeb ar gyfer cwmpas ychwanegol.	Yn rhan o waith trawsnewid digidol y system iechyd a gofal, a symud i ffwrdd o’r ddibyniaeth ar bapur fel y cofnod sy’n gyfreithiol dderbyniol, mae angen i sefydliadau ddibynnu ar gofnodion digidol, dilys. Safon Brydeinig BS10008 yw’r mecanwaith i ddangos tystiolaeth o safonau ansawdd rheoli data ac anfon negeseuon a ddefnyddir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer storfeydd data cenedlaethol. Mae hyn yn gyson â dull gwella ansawdd ehangach Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru (WIGTK)	Pecyn cymorth hunanasesu cydymffurfedd a sicrwydd ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG a Meddygon Teulu yng Nghymru sy’n nodi i ba raddau y maent yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sylfaenol, safonau ac arferion da. Anogir practisiau meddygon teulu i’w gwblhau trwy ddolen i’r Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd sy’n rhan o’r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Rydym yn cynnal ein huchelgais i Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ddod yn elfen orfodol o’r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol drwy gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Arbennig. Rhaid i fferyllfeydd cymunedol a meddygon teulu sy’n rhagnodi trwy’r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig ei gwblhau.	Bydd fersiwn o’r pecyn cymorth sy’n berthnasol i sylfaen defnyddwyr y Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig yn cyd-fynd â gofynion Pecyn Cymorth Diogelu ac Amddiffyn Data GIG Lloegr ac yn hwyluso mynediad at y gwasanaethau Spine gofynnol. Efallai y byddwn am integreiddio neu gynnwys fframweithiau asesu eraill – fel y Fframwaith Asesu Seiber – yn rhan o Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru neu ei lwyfan. Er mwyn hyrwyddo arfer Llywodraethu Gwybodaeth da ac i sicrhau bod gan ddarparwyr sy’n defnyddio systemau iechyd a gofal cenedlaethol fecanweithiau sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth priodol ar waith, mae angen i ni ddatblygu fersiynau ychwanegol o Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru sy’n berthnasol i garfanau eraill o ddarparwyr iechyd a gofal.	Atgyfnerthu safle Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol drwy sicrhau gwelliant parhaus yn unol ag adborth rhanddeiliaid, newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi a chanllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ac eraill. Ymgymryd â gwaith cwmpasu a dichonoldeb i ddeall blaenoriaethau ar gyfer ehangu Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ar gyfer carfanau ychwanegol o ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar risg / angen i gael mynediad at systemau a chymwysiadau iechyd a gofal cenedlaethol.	Heb Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru, yr unig fecanwaith ar gyfer sicrhau cydymffurfedd â gofynion a safonau Llywodraethu Gwybodaeth, ac i fodloni disgwyliadau GIG Lloegr o ran mynediad at wasanaethau Spine, yw cwblhau Pecyn Cymorth Diogelu ac Amddiffyn Data GIG Lloegr. Nid yw hyn yn ymarferol nac yn ddymunol o safbwynt gwleidyddol. Yn yr un modd, gall rhanddeiliaid o Gymru ddylanwadu ar y setiau o gwestiynau ym Mhecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru a derbyn adroddiadau allbwn yn seiliedig ar feysydd risg y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn rhoi’r cyfle i ddatblygu cynlluniau gwella sefydliadol yn seiliedig ar y pethau sydd o bwys i randdeiliaid yng Nghymru.

Cynnyrch / Gwasanaeth	Statws Cyfredol	Ble rydym ni am fod?	Sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno?	Pam fod ots?
Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data ar gyfer Meddygon Teulu	Gwasanaeth tanysgrifio i fodloni'r gofyniad statudol i feddygon teulu benodi Swyddog Diogelu Data. Mae tua 83% o bractisiau yng Nghymru wedi tanysgrifio iddo.	Ehangu'r gwasanaeth i feysydd eraill lle mae angen wedi'i nodi; er enghraifft, gwaith clwstwr meddygon teulu lle nad oes model cymorth Llywodraethu Gwybodaeth ffurfiol ac sy'n cynnwys ystod eang o brosiectau a mentrau sy'n defnyddio data iechyd a gofal.	Mae proses ymgynghori'n gynnar wedi'i chynnal eisoes â rhanddeiliaid eraill ar draws y system iechyd a gofal. Bydd sefydlu mecanweithiau ariannu ar gyfer rhanddeiliaid newydd yn hollbwysig ochr yn ochr â thrafodaethau parhaus ynghylch y model ariannu ar gyfer meddygon teulu.	Mae'r gwasanaeth hwn yn bodloni rhwymedigaeth statudol a fyddai fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i bractisiau unigol benodi eu Swyddog Diogelu Data eu hunain fel gweithiwr neu ar sail contract. Mae'r gwasanaeth cenedlaethol yn darparu dull Unwaith i Gymru gyda darbodion maint a chynghor ac arweiniad cyson i feddygon teulu. Mae hyn yn helpu i lywio a dylanwadu ar dderbynioldeb risg ar gyfer rhaglenni a mentrau cenedlaethol gan wella cydymffurfedd Llywodraethu Gwybodaeth a lleihau'r risg o dorri cyfraith diogelu data a chyfrinachedd cleifion.
Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)	Fframwaith sefydledig o egwyddorion rhannu gwybodaeth a thempledi safonol i helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ddogfennu eu trefniadau rhannu gwybodaeth. Ar hyn o bryd, mae dros 750 wedi'i lofnodi ac mae 258 o brotocolau rhannu gwybodaeth wedi'u sicrhau a'u cyhoeddi. Helpodd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) i ffurfioli trefniadau yn ystod pandemig Covid-19 ac mae'n cefnogi rhaglenni aml-asiantaeth, fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), yn ogystal â chynnal ffoaduriaid o Wcráin.	Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'n huchelgeisiau i WASPI ddod yn God Ymddygiad a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd hyn yn darparu sbardun ychwanegol i wneud WASPI yn rhan annatod pellach o wasanaethau cyhoeddus Cymru ac yn dangos fframwaith esblygol sy'n ystyried y datblygiadau polisi a deddfwriaethol diweddaraf. Byddwn hefyd yn ehangu'r gyfres o dempledi sydd ar gael o dan fframwaith WASPI.	Mae cod drafft wedi bod trwy'r cam ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn iddo gael ei gyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru sefydlu Corff Monitro, sy'n gofyn am sefydlu model adnoddau cynaliadwy. Yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid a chael cyngor cyfreithiol, byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi templedi brand WASPI ar gyfer Cytundebau Rheolydd Data ar y Cyd a Chytundebau Prosesu Data.	Mae pwysigrwydd rhannu gwybodaeth i gyflenwi gwasanaethau iechyd, gofal a gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi'i hen sefydlu. Heb fframwaith WASPI sy'n datblygu'n barhaus, bydd sefydliadau'n ei chael yn fwy anodd dangos cydymffurfedd â'r gyfraith ac arferion da wrth rannu data. Byddai hwn yn gam yn ôl a bydd yn oedi neu'n atal trefnau rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cynnyrch / Gwasanaeth	Statws Cyfredol	Ble rydym ni am fod?	Sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno?	Pam fod ots?
Porth Rhannu Gwybodaeth (ISG) – offeryn digidol sy’n caniatáu creu a rheoli gweithgaredd sicrwydd mewn modd digidol megis Asesiadau o’r Effaith ar Ddiogelu Data a chytundebau rhannu gwybodaeth.	Mae’r contract wedi’i ddyfarnu ac mae’r cynnyrch yn cael ei ffurfweddu. Mae’r trefniadau trwyddedu’n caniatáu i lechyd a Gofal Digidol Cymru roi caniatâd defnyddwyr i unrhyw ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus, sy’n golygu bod gan y datrysiad gymhwysiad eang a allai gyflwyno buddion sylweddol i ystod eang o sefydliadau.	Rydym am i’r Porth Rhannu Gwybodaeth leihau’r gorbenion gweinyddol sy’n gysylltiedig â rheoli sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth ar draws y system iechyd a gofal. Mae ganddo’r potensial i ddod yn fodd i helpu gyda phortffolios a rhaglenni amrywiol; o symleiddio sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol (NDR) i ddatblygu, rhannu ac adolygu cytundebau WASPI.	Cyflwyno fesul cam gan ddechrau gyda chofrestr ar gyfer cytundebau WASPI a fersiynau digidol o’i dempledi y gellir eu datblygu, eu cymeradwyo a’u storio yn y Porth Rhannu Gwybodaeth. Bydd yr ail gam yn ystyried templed digidol Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer Cymru. Ac yntau wedi’i ariannu ar hyn o bryd drwy’r rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol, bydd angen sefydlu model ariannu hirdymor os ystyrir bod gan y datrysiad werth hirdymor.	Mae’r prosesau presennol ar gyfer datblygu cytundebau a chynhyrchion sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth eraill wedi’u cyfyngu gan ffiniau tenantiaid TG sefydliadol ac nid ydynt yn adlewyrchu natur gydweithredol, aml-asiantaeth cyflenwi gwasanaethau. Mae gan y datrysiad Porth Rhannu Gwybodaeth y potensial i ddarparu datrysiad Cymru gyfan sy’n darparu arbedion effeithlonrwydd ac sy’n gwella ansawdd dogfennau a threfnau cadw cofnodion, gan ei gwneud yn haws i ddangos cydymffurfedd â Llywodraethu Gwybodaeth.
Yr Adnodd Data Cenedlaethol – ffrwd waith Llywodraethu Gwybodaeth	Mae staff Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rhan annatod o dîm y rhaglen ac maent wedi sefydlu fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth gyda’r nod o alluogi prosesu data iechyd a gofal mewn modd cyfreithlon, diogel ac effeithiol drwy’r llwyfan data cenedlaethol.	Cymhwyso fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yr Adnodd Data Cenedlaethol wrth i raglenni a phrosiectau gael eu cynnwys yn y llwyfan data cenedlaethol. Sefydlu mecanweithiau llywodraethu sy’n cyd-fynd â llywodraethu ehangach yr Adnodd Data Cenedlaethol.	Datblygu strategaeth ymadael, gan gynnwys model ariannu sy’n caniatáu pontio i drefniadau gweithio ‘busnes fel arfer’.	Yr Adnodd Data Cenedlaethol yw’r rhaglen flaenllaw sy’n ymwneud â data ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymru. Mae’n risg uchel o ran enw da ac oherwydd swm uchel a sensitifrwydd y data a fydd yn cael ei dderbyn, ei rannu neu ei storio gyda’r Adnodd Data Cenedlaethol. Mae’n hanfodol bod polisiau, gweithdrefnau ac arferion Llywodraethu Gwybodaeth cadarn yn eu lle.
Polisi a llywodraethu	Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydlynw gwaith datblygu polisi llywodraethu gwybodaeth cenedlaethol. Mae hefyd ganddo rôl o ran cyfrannu at ddatblygu a gweithredu polisi llywodraeth Cymru sy’n effeithio ar y defnydd o ddata iechyd a gofal at ddibenion gofal uniongyrchol ac anuniongyrchol.	ydym am gefnogi llywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen o waith datblygu polisi sy’n sail i drefnau casglu, dadansoddi a rhannu data iechyd a gofal mewn modd cyfreithlon ac effeithiol. Byddwn yn cefnogi ac o bosibl yn cyflawni elfennau o waith ymgysylltu â chleifion a’r cyhoedd a gwaith cyfathrebu ynghylch y defnydd o ddata iechyd a gofal.	Parhau i weithio gyda llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid iechyd a gofal eraill i nodi, datblygu a gweithredu blaenoriaethau polisi. Byddwn yn cymryd perchnogaeth o ddatblygiad safbwyntiau polisi penodol, gan gydnabod mai llywodraeth Cymru yw’r corff llunio polisi.	Nid oes gan Gymru dirwedd polisi data aeddfed sydd wrth wraidd ei huchelgeisiau i wneud gwell defnydd o ddata iechyd a gofal. Os na fydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymgymryd â rôl ganolog wrth gefnogi uchelgeisiau polisi llywodraeth Cymru, mae’n annhebygol y byddwn yn gweld cynnydd sylweddol oherwydd problemau yn ymwneud â chapasiti a gwybodaeth arbenigol ar lefel ganolog.

HERIAU A CHYFLEOEDD

Mae nodi amcanion a nodau ar gyfer ein cynhyrchion a gwasanaethau wedi ein galluogi i dynnu sylw at ffactorau sy'n cyflwyno heriau neu sy'n tynnu sylw at gyfleoedd sy'n berthnasol i weithredu ein strategaeth. Mae Atodiad A yn cynrychioli strwythur y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth presennol ac yn nodi crynodeb o'r ffactorau gweithredu strategaeth allweddol hynny sy'n berthnasol i'n tîm.

HERIAU

Sefydlu modelau ariannu cynaliadwy – mae argaeledd tameidiog ffynonellau cyllid yn cynnig her sylweddol wrth gyflenwi a datblygu'n barhaus ein cynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal ag uchelgeisiau i resymoli strwythur a llinellau adrodd ein tîm. Byddwn yn dadlau dros fodelau ariannu gwahanol a'r gwerth y gallant ei gynnig.

Strwythur a llinellau adrodd presennol y tîm – Dros amser ac am wahanol resymau, gan gynnwys argaeledd a strwythur cyllid, mae arferion gweithio ynysig wedi'u datblygu. Nid yw'r model gweithredu hwn yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen arnom i ymateb yn hyblyg i adegau prysur o ran llwyth gwaith a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Sgiliau rheoli cynnyrch – Wrth i'n cynhyrchion a'n gwasanaethau aeddfedu a dod yn rhan annatod o wead y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, bydd angen i ni ystyried a oes gennym y cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad i ganiatáu dull sy'n canolbwyntio ar gynnyrch; hynny yw, mae angen mwy nag arbenigwyr pwnc Llywodraethu Gwybodaeth arnom. Mae buddsoddi mewn datblygiad staff yn ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â'r her hon. Mae dysgu gan gydweithwyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ffordd arall.

CYFLEOEDD

Buddsoddi mewn datblygiad staff – mae gennym hanes o fuddsoddi mewn datblygiad staff a chreu llwybrau ar gyfer datblygu gyrfa o fewn y tîm. Bydd nodi llinyn aur sy'n cysylltu gweledigaeth, cenhadaeth a nodau strategol â nodau ac amcanion penodol yn rhoi'r cyfle i ni nodi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i'w cyflawni. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn datblygiad staff gan ddefnyddio dull mwy cyfannol, yn seiliedig ar dîm i feithrin gallu a chadernid.

Cydweithio – rydym wedi nodi themâu cyffredin sy'n treiddio trwy'r nodau a'r amcanion ar gyfer ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Mae'r rhain yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer cydweithio o fewn y tîm mewn perthynas â datblygu:

- Pecynnau hyfforddi.
- Rhaglenni archwilio.
- Canllawiau / canolfannau rhagoriaeth.

Defnyddio datrysiadau digidol – Rydym eisoes wedi nodi sut y gall datrysiadau digidol (er enghraifft yr offeryn Porth Rhannu Gwybodaeth) ychwanegu gwerth at sawl ffrwd gwaith Llywodraethu Gwybodaeth a byddwn yn parhau i archwilio manteision cymwysiadau a llwyfannau sy'n dod â buddion ar draws ffrydiau gwaith.

Proffiliau proffesiynol a llwybrau – Gan ddibynnu ar gwmpas clir ac argaeledd adnoddau i'w datblygu, bydd datblygu proffiliau proffesiynol a llwybrau gyrfa yn helpu gyda'n cynlluniau i ddatblygu adnodd staff medrus a hyblyg.

MONITRO GWEITHREDU

Byddwn yn datblygu mecanweithiau i fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion a nodau a chysylltu'r rhain â'n nodau strategol.

Disgwyliwn i amcanion aelodau'r tîm adlewyrchu ein nodau ac amcanion strategol. Dylai'r amcanion unigol hyn fod yn sail i adolygiadau perfformiad ffurfiol (yn flynyddol o leiaf) ac adolygiadau cynnydd rheolaidd, fel y cytunwyd rhwng unigolion a'u rheolwr llinell.

Byddwn yn adolygu'r ddogfen hon yn flynyddol i egluro blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar flaenoriaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth.



Atodiad A: Strwythur y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Heriau gweithredu

Sefydlu modelau ariannu cynaliadwy sy'n atgyfnerthu gwaith presennol ac sy'n cefnogi nodau'r dyfodol.

Efallai nad yw strwythur / llinellau adrodd presennol y tîm yn ddelfrydol.

Meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fabwysiadu dull rheoli cynhyrchion.

Cyfleoedd


Buddsoddi mewn datblygu staff i feithrin gallu a chadernid.

Cydweithio ar ddatblygu:

- Pecynnau Hyfforddi.
- Rhaglenni Archwilio.
- Canllawiau / canolfannau rhagoriaeth.

Gwneud y gorau o dechnoleg a datrysiadau digidol.

Y potensial i fabwysiadu neu ddatblygu proffiliau proffesiynol Llywodraethu Gwybodaeth i helpu i ddatblygu staff.



IGDC GWERTHOEDD

Credwn fod ein gwerthoedd yn rhan annatod o bopeth a wnawn a byddant yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhyngweithiad a chydweithwyr, rhanddeiliaid, cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid posibl.



CYDWEITHIO

- Cydweithio
- Gwaith tîm
- Cefnogi a herio
- Gwrando gwerthfawrogi ein gilydd
- Gwerthuso / myfyrio
- Dysgu parhaus



ARLOESI

- Meddwl creadigol
- Dewrder
- Trawsnewid
- Croesawu newid
- Uchelgeisiol



CYNHWYSOL

- Amrywiaeth
- Cydraddoldeb
- Parch
- Tegwch
- Chwarae teg
- Dathlu llwyddiant a chyflawniadau



RHAGORIAETH

- Ansawdd
- Gwelliant parhaus
- Anelu at sicrhau canlyniadau da
- Balchder yn yr hyn a wnawn
- Atebolrwydd
- Grymuso



TOSTURIOL

- Urddas
- Caredigrwydd
- Empathi
- Cyfrifoldeb personol
- Ymddiriedaeth